# Adroddiad Arholwyr Lefel 2

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau Lefel 2

Haf 2025

© WJEC CBAC Ltd.2025



## Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

### Cefnogaeth bellach

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Cynnwys**

| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 1 | 6 |
| Uned 2 | 9 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 13 |

© WJEC CBAC Ltd.2025

## Crynodeb Gweithredol

### Asesu Allanol: Uned 1

Arhosodd y perfformiad yn yr arholiadau eleni yn sefydlog o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol gyda llawer o ymgeiswyr yn dangos lefelau da o wybodaeth a dealltwriaeth. Roedd rhai ymgeiswyr yn mynd i'r afael â'r cwestiynau AA3 trwy ysgrifennu ymatebion byr a/neu bwyntiau bwled a oedd yn cyfyngu ar eu marciau. Dylai canolfannau annog ymgeiswyr i ymestyn eu hatebion trwy ganolbwyntio ar y berfau gorchmynnol ac ymarfer ar gyfer yr arholiad i ychwanegu mwy o gydbwysedd i gwestiynau sy'n gofyn am werthuso, trafod neu ystyried testun.

Gall cyn-bapurau, cynlluniau marcio ac adnoddau arweiniad i'r arholiad gefnogi'r gwaith o addysgu techneg arholiad.

Dylai'r meysydd i ganolbwyntio arnynt wrth addysgu ymwneud â'r term Cynnig Rhagweithiol y mae llawer o ymgeiswyr yn parhau i'w gamddeall ac sy'n gysylltiedig â gweithgarwch corfforol. Yn ogystal, dylid annog ymgeiswyr i ddefnyddio cymhwysiad ymarferol wrth drafod cynlluniau gofal a chymorth, gan dynnu ar enghreifftiau sy'n gysylltiedig â senarios penodol.

Roedd yn galonogol nodi bod llawer o ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn, er bod rhai atebion yn fyr.

### Asesu Mewnol: Uned 2

Mae canolfannau i'w canmol am uwchlwytho gwaith ar amser, a'r rhan fwyaf ohonynt gyda dogfennaeth ategol.

Gan fod y ddau aseiniad yn cael eu cynnal dan amodau dan reolaeth, dylid uwchlwytho tystiolaeth o nodiadau a wnaed cyn yr asesiad a logiau amser gyda'r gwaith i roi tystiolaeth o'r oriau ymgysylltu â'r sector. Roedd yr anodiadau'n dangos lle rhoddwyd marciau i ymgeiswyr yn ddefnyddiol i gynorthwyo'r broses gymedroli; ychydig o anodiadau a gafwyd ar rywfaint o'r gwaith.

Gan fod gofyn i ymgeiswyr ymgysylltu â'r sector o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, roedd y rhai mewn ysgolion prif ffrwd dan anfantais wrth gwblhau rhai adrannau o aseiniad 2. Dylai canolfannau wneud pob ymdrech i osod ymgeiswyr mewn lleoliadau lle gall gweithwyr iechyd a/neu ofal cymdeithasol proffesiynol gael eu harsylwi. Mewn addysg brif ffrwd, gallai hyn fod gyda nyrsys ysgol, seicolegwyr addysgol neu weithwyr cymdeithasol ysgolion. Nid yw athrawon a gweithwyr gofal plant yn darparu ehangder perthnasol y wybodaeth y mae ymgeiswyr ei angen ar gyfer yr aseiniad hwn.

Dylai ymgeiswyr ddeall sut mae adfyfyrio ar ymgysylltu â'r sector yn gallu cefnogi eu gwaith yn aseiniad 2, gan eu hannog i ysgrifennu am arsylwadau personol yn hytrach na gwneud sylwadau generig.

Gofynnwn i chi wneud yn siŵr bod asesiadau dan reolaeth yn cael eu goruchwylio a'u monitro'n ofalus i leihau'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a llên-ladrad yng ngwaith ymgeiswyr.

**Meysydd i'w gwella**

- Ymarfer ar gyfer yr arholiad, gan ganolbwyntio ar ferfau gorchmynnol: https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/ Arweiniad i'r arholiad ac adborth ar asesiadau'r haf
- Ategu a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth: https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/ Adnoddau dysgu

© WJEC CBAC Ltd.2025

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 2**

**Haf 2025**

**Uned 1: Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd**

**Trosolwg o'r Uned**

Roedd ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad hwn ar y cyfan, gyda'r mwyafrif yn gwneud ymdrech glir i roi cynnig ar bob cwestiwn.

Roedd yr asesiad yn ymdrin â phob maes o'r fanyleb, fel yr amlinellir yn y cynllun marcio, ac yn rhoi cyfle i bob ymgeisydd ddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau cymhwyso a dadansoddi.

Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu ymgysylltu â'r deunydd yn effeithiol. Mae rhai ymgeiswyr wedi cyfyngu eu marciau posibl trwy gynnig atebion rhy syml, ac roedd rhai ymgeiswyr wedi ysgrifennu rhestri mewn pwyntiau bwled. Roedd cwestiynau a oedd yn werth mwy weithiau'n dangos diffyg dyfnder yn yr ymateb.

Wrth baratoi at eu harholiadau, dylid atgoffa ymgeiswyr o bwysigrwydd y berfau gorchmynnol a'r marciau sydd ar gael; bod angen rhoi mwy o sylw i fanylion a datblygu ymatebion yn llawnach i atebion ennill marciau llawn. Gall eu hannog i ymarfer cwestiynau arholiad yn rheolaidd roi cymorth gyda hyn. Er mwyn cefnogi myfyrwyr i gyrraedd marciau yn y bandiau uwch, argymhellir eu hannog i ysgrifennu mewn brawddegau llawn a pharagraffau strwythuredig. Dylid cadw pwyntiau bwled ar gyfer cwestiynau sy'n gofyn yn benodol am restr.

Roedd sillafu, atalnodi a gramadeg yn elfen gref i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr, ac roedd llawysgrifen yn ddarllenadwy yn y rhan fwyaf o achosion, a oedd yn cynorthwyo eglurder y cyfathrebu.

Mae deddfwriaeth yn parhau i fod yn faes heriol. Mae ymgeiswyr yn aml yn cael trafferth gyda chwestiynau sy'n gofyn iddynt esbonio a gwerthuso deddf benodol. Dim ond dwy Ddeddf sydd wedi'u rhestru yn y fanyleb hon ac argymhellir treulio oriau dysgu yn sicrhau dealltwriaeth drylwyr o'r ddwy ddeddf.

**Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol**

Cw.1 Enillodd llawer o ymgeiswyr farciau da am y cwestiwn hwn, dangosodd rhai ddryswch o ran bod y gweithgaredd dal pêl yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau echddygol bras.

Cw.2 (a) Cafodd yr amrediad oedran ar gyfer cam bywyd llencyndod (13 i 19 oed) ei farcio fel cywir neu anghywir, ac nid oedd marciau rhannol ar gael. Atebodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gywir, er y gallai fod yn ddefnyddiol atgyfnerthu union amrediadau oedran wrth adolygu.

© WJEC CBAC Ltd.2025

(b) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi dau newid corfforol sy'n digwydd i fechgyn yn ystod y glasoed. Er mwyn ennill credyd, roedd angen mynegi'r ymatebion yn glir a defnyddio terminoleg gywir. Er enghraifft, nid oedd atebion amwys fel "blew" yn ennill marciau, ond roedd credyd yn cael ei roi am dermau mwy penodol fel "blew yn tyfu ar yr wyneb". Mae'n bwysig parhau i annog defnyddio iaith gywir a phriodol, gan nad oedd bratiaith na thermau anffurfiol yn cael eu derbyn yn unol â gofynion y cynllun marcio.

(c) Roedd llawer o ymgeiswyr wedi nodi'n gywir hormonau fel ffactor allweddol o ran agwedd emosiynol ar ddatblygiad yn ystod cam bywyd llencyndod, ymateb poblogaidd a pherthnasol. Er mwyn ennill marciau llawn, roedd angen i ymgeiswyr fynd y tu hwnt i nodi ac amlinellu'n glir effaith lefelau uwch o hormonau ar ddatblygiad emosiynol, megis newid mewn hwyliau, sensitifrwydd uwch, neu ansefydlogrwydd emosiynol.

Cw.3 (a) Roedd ymatebion poblogaidd yn cynnwys cynyddu ei eirfa, cysylltu geiriau yn y testun â'u hystyron ac ynganu.

(b) Roedd yr ymatebion da i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â bod Oscar yn 2 oed. Roedd ymatebion datblygedig yn gallu ennill marciau llawn, megis canu caneuon a hwiangerddi gyda'i gilydd i ddatblygu tôn, traw a chyflymder.

(c) Gwelwyd amrywiaeth o ymatebion. Er bod rhai atebion yn ddryslyd o ran y testun hwn, rhoddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn. I gyrraedd y band marciau canol/uchaf roedd angen i ymatebion ddangos trafodaeth dda a chytbwys, ac nid cyflwyno rhestr o bwyntiau yn unig.

Cw.4 (a) Enillodd llawer o ymgeiswyr farciau llawn am baru'r gwasanaethau. Nid oedd gwasanaeth eiriolaeth yn gyfarwydd i rai ymgeiswyr.

(b) Roedd y cwestiwn yn gofyn am ganlyniadau cefnogaeth y mab i'w dad. Roedd rhai ymgeiswyr yn rhestru'r rhestr o weithgareddau yn y senario ond ni wnaethant ddisgrifio'r effaith. I fod yn y band marciau uchaf roedd angen nodi canlyniadau o ran iechyd a llesiant.

(c) Mae rôl a phwrpas cynlluniau gofal a chymorth yn aml yn cael eu camddeall o edrych ar ymatebion ymgeiswyr. Rhoddwyd y marciau uchaf am ymatebion a oedd yn esbonio bod cynllun gofal a chymorth yn ddogfen ysgrifenedig sy'n cael ei llunio gan dîm amlddisgyblaethol i nodi anghenion parhaus Luke a'r gwasanaethau cymorth.

(ch) Mae cyfranogiad gweithredol yn derm y mae ymgeiswyr yn aml yn ei gamddeall. Ni roddwyd credyd am ymatebion a oedd yn cyfeirio at 'fod yn weithgar' a rhestrodd rhai ymgeiswyr y gwasanaethau a nodwyd yng nghwestiwn 4(a). I gyrraedd marciau yn y band uchaf, roedd angen i ymgeiswyr ddangos eu dealltwriaeth o'r term ac asesu sut gallai cyfranogiad gweithredol wella canlyniadau llesiant y cleient ac atal gofal goddefol.

Cw.5 (a) Cafodd ei ateb yn dda gan y mwyafrif o ymgeiswyr, roedd ymatebion poblogaidd yn cynnwys gordewdra a chanser y ceilliau.

(b) I ennill marciau yn y band uchaf, roedd angen i'r ymatebion gynnwys trafodaeth, gan ddangos dyfnder a dealltwriaeth o bwyntiau perthnasol ac nid dim ond rhestru rhesymau. Roedd angen nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol hefyd.

© WJEC CBAC Ltd.2025

Cw.6 (a) Ni allai llawer o ymgeiswyr amlinellu'r term craffter gweledol.

(b) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ffyrdd o gefnogi craffter gweledol mewn babanod. Roedd yr ymatebion disgwyliedig yn cynnwys symudion uwchben cot, gemau cydsymud llaw a llygad fel didoli siapiau a deiet iachus yn cynnwys Fitamin A i gael golwg iach. Rhoddwyd credyd am nodi profion llygaid.

Roedd y cwestiwn yn heriol i ymgeiswyr.

(c) Roedd ymgeiswyr yn gallu esbonio pa mor bwysig yw profion llygaid rheolaidd. I ennill marciau llawn, roedd angen i'r ymatebion roi sylw manwl i'w rôl o ran cynnal iechyd corfforol, megis canfod cyflyrau yn gynnar, a'i gyfraniad at lesiant, megis hunangysyniad a hyder.

Cw.7 (a) Rhoddwyd marciau llawn am ymatebion manwl a oedd yn esbonio dylanwad amgylchedd y cartref ar ddatblygiad plentyn. Collodd rhai ymgeiswyr farciau trwy esbonio pwyntiau a oedd yn debyg iawn neu ddim yn berthnasol i amgylchedd y cartref.

(b) Rhoddwyd marciau llawn am ymatebion manwl a oedd yn esbonio dylanwad strwythur teuluol ar ddatblygiad plentyn. Roedd yn bleser gweld ymgeiswyr yn defnyddio terminoleg gywir ar gyfer y gwahanol fathau o deuluoedd fel teuluoedd cnewyllol neu deuluoedd cymysg.

Collodd rhai ymgeiswyr farciau trwy esbonio pwyntiau a oedd yn debyg iawn neu ddim yn berthnasol i strwythur teuluol

(c) Rhoddwyd marciau llawn am ymatebion manwl a oedd yn esbonio dylanwad diwylliant a chrefydd ar ddatblygiad plentyn. Collodd rhai ymgeiswyr farciau trwy esbonio pwyntiau a oedd yn debyg iawn, ddim yn berthnasol i ddiwylliant a chrefydd, neu â diffyg dyfnder a dealltwriaeth.

Cw.8 (a) Ymatebodd ymgeiswyr yn dda i'r cwestiwn hwn. Roedd awgrymiadau poblogaidd yn canolbwyntio ar faeth ac ymarfer corff. Roedd yr ymgeiswyr a ddangosodd ddealltwriaeth o osod nodau, fel bwyta 5 y dydd, neu gerdded milltir bob diwrnod yn gallu ennill marciau llawn.

(b) Gwelwyd amrywiaeth o ymatebion ar gyfer y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai rhai ymgeiswyr restru rhywfaint o'r nodau llesiant, gyda rhai'n datblygu eu hymateb i esbonio'r pwrpas.

Roedd saith marc ar gael am y cwestiwn hwn, ond roedd diffyg dyfnder a dealltwriaeth o'r ddeddf hon yn ymatebion y rhan fwyaf o ymgeiswyr.

**Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol**

- Dylai ymgeiswyr symud y tu hwnt i restru ffeithiau. Dylai atebion sy'n deilwng o farciau llawn gynnwys trafodaeth feddylgar ac esboniad o bwyntiau perthnasol.
- Er mwyn cyrraedd y band uchaf, dylai myfyrwyr ystyried agweddau cadarnhaol a negyddol , gan ddangos dealltwriaeth werthusol.
- Dylid ymarfer trwy ddefnyddio cwestiynau arddull arholiad ac adolygiad gan gymheiriaid i feithrin sgiliau trafod.
- Atgyfnerthwch ystyr berfau gorchmynnol, e.e. esboniwch, trafodwch, gwerthuswch a sut maen nhw'n cysylltu â'r dyraniad marciau.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 2**

**Haf 2025**

**Uned 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog**

**Trosolwg o'r Uned**

Yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, cwblhaodd ymgeiswyr y ddwy elfen o'r cymhwyster yn llwyddiannus. Mae canolfannau i'w canmol am eu hymrwymiad a'u hymdrech barhaus i fodloni'r gofynion cyflwyno. Cyflwynodd pob canolfan eu samplau ar gyfer Aseiniad 1 ac Aseiniad 2 o fewn y cyfnod gofynnol.

Roedd y samplau wedi'u cyflwyno'n dda ar y cyfan, gyda rhifau ymgeiswyr wedi'u cymhwyso'n gywir yn y rhan fwyaf o achosion a'r ffurflenni dilysu wedi'u llenwi'n briodol. Fodd bynnag, roedd nifer bach o'r rhai a gyflwynwyd yn cynnwys gwallau neu hepgoriadau yn y dogfennau adnabod neu ddilysu ymgeiswyr.

Roedd yr anodiadau gan aseswyr yn amrywio'n sylweddol ar draws canolfannau o ddim anodiadau o gwbl i sylwadau manwl ac wedi'u cyfiawnhau'n dda a oedd yn cefnogi'n glir y band marciau a'r radd a roddwyd. Dylai canolfannau gofio bod anodi effeithiol yn hanfodol er mwyn cefnogi'r broses gymedroli ac i fod yn dryloyw wrth gymhwyso'r meini prawf asesu.

Yn unol â manyleb CBAC (tudalen 33), atgoffir canolfannau bod yn rhaid cyflwyno holl logiau ymgysylltu â'r sector fel tystiolaeth bod ymgeiswyr wedi cwblhau'r 60 awr orfodol o ymgysylltu â'r sector. Mae cydymffurfio â'r gofyniad hwn yn hanfodol ar gyfer dilysu cyflawniad dysgwyr.

Mae canolfannau wedi gweithio'n eithriadol o galed i fodloni gofynion cyflwyno'r cymhwyster hwn. Ar y cyfan, roedd y samplau a gyflwynwyd yn drefnus, ac roedd ansawdd yr anodi gan aseswyr yn amrywiol. Roedd rhai canolfannau wedi cynnwys nodiadau ymgeiswyr ac wedi darparu tystiolaeth o gyfrif geiriau, sy'n unol â'r disgwyliadau o ran amodau asesiad dan reolaeth.

Gan fod Aseiniad 1 ac Aseiniad 2 i'w cwblhau dan amodau dan reolaeth gyda therfyn geiriau a lwfans ar gyfer nodiadau, disgwyliwyd bod tystiolaeth glir o'r elfennau hyn. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, ychydig o sylwadau, cyfeiriadau, neu ddogfennaeth ategol a gafwyd gan diwtoriaid ynglŷn â chadw at y gofynion hyn.

Roedd **Aseiniad 2** yn gofyn i ymgeiswyr gyflawni cyfnod o leoliad gwaith mewn lleoliad Iechyd a/neu Ofal Cymdeithasol a chwblhau 60 awr o ymgysylltu â'r sector. Er bod rhai canolfannau wedi darparu'r dystiolaeth hon yn effeithiol, aeth ychydig o ymgeiswyr i leoliadau ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin. Roedd hyn yn eu rhoi dan anfantais wrth fynd i'r afael â gofynion yr asesiad. Rhaid pwysleisio eto eleni nad yw lleoliadau gofal plant yn addas ar gyfer y fanyleb hon. Cynghorir canolfannau yn gryf i gyfeirio at ganllawiau CBAC i sicrhau bod lleoliadau priodol yn cael eu dewis ar gyfer y cymhwyster.

Roedd yr amrywiaeth o siaradwyr gwadd a'r gweithgareddau ymgysylltu â'r sector yn amrywio o ganolfan i ganolfan, ac mewn rhai achosion roedd hyn yn effeithio ar ansawdd gwaith yr ymgeiswyr. Gellid ystyried bod amrywiaeth ehangach o gyfleoedd ymgysylltu â'r sector yn arfer da yn y dyfodol.

© WJEC CBAC Ltd.2025

Yn ogystal, rhaid i ganolfannau sicrhau bod logiau ymgysylltu â'r sector yn cael eu huwchlwytho gyda'r holl waith a gyflwynir, yn unol â chanllawiau CBAC. Mae'r logiau hyn yn hanfodol ar gyfer gwirio'r ymgysylltiad â'r sector a chefnogi'r broses asesu.

**Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol**

Roedd arferion asesu yn amrywio ar draws canolfannau. Er bod rhai aseswyr wedi darparu anodiadau clir a manwl i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd, ni wnaeth eraill gynnig fawr ddim sylwadau, gan ei gwneud hi'n anodd deall y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniadau graddio. Mewn sawl achos, rhoddwyd marciau yn y bandiau uwch er mai ymdriniaeth rannol o'r meini prawf asesu a gafwyd. Yn ogystal, roedd achosion lle roedd yn ymddangos fel petai marciau wedi'u dyrannu heb gyfeirio at y cynllun marcio neu'r ymatebion a awgrymwyd, gan arwain at bryderon am gywirdeb a chysondeb yr asesiad.

Atgoffir canolfannau o bwysigrwydd glynu wrth amodau'r asesiadau dan reolaeth, gan gynnwys cyflwyno nodiadau, logiau amser, ac anodiadau clir gan aseswyr. Mae'r elfennau hyn yn hanfodol i gefnogi'r broses gymedroli a sicrhau tegwch a thryloywder wrth roi marciau.

**Aseiniad 1**

**Tasg A**
Rhoddodd pob ymgeisydd gynnig ar y dasg. Fodd bynnag, nid oedd digon o ddyfnder mewn llawer o'r ymatebion ac nid oeddent yn cymhwyso Anghenion Sylfaenol Pobl Max-Neef yn llawn yn ôl y gofyn. Er bod rhai ymgeiswyr wedi cyfeirio at Hierarchaeth Anghenion Maslow, nid yw'r fframwaith hwn yn unig yn bodloni'r meini prawf asesu. Roedd yr amlinelliadau yn aml yn fyr, a chafodd y ferf orchmynnol ei dehongli'n amrywiol. Nodwyd y cyflwynwyd anodiadau anghyson a thystiolaeth gyfyngedig o safoni mewnol ar draws y canolfannau, gan effeithio ar gyfiawnhad o'r marciau a roddwyd.

**Tasg B (i)**
Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddealltwriaeth gref o ofal person-ganolog, gan nodi'r cysyniad yn glir ac esbonio rôl gydweithredol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Cymhwyswyd canlyniadau llesiant at astudiaethau achos yn dda ar y cyfan, heb fawr ddim o farciau'n cael eu colli yn y maes hwn. Ymdriniwyd â'r adran hon yn gyson dda ar draws canolfannau.

**Tasg B (ii)**

**Tasg C**
Enillodd ychydig o ymgeiswyr farciau yn y band uchaf am yr adran hon. Er bod rhai canolfannau wedi cyflwyno nodweddion allweddol (GATEAU), ni chafodd ei gymhwyso'n gyson. Roedd llawer o'r ymatebion yn canolbwyntio ar heriau personol neu yn y gorffennol yn hytrach na sut i gael mynediad at wasanaethau yn y dyfodol, ac roedd y prif rwystrau yn aml yn cael eu hanwybyddu. Anogir ymgeiswyr i gymhwyso GATEAU yn fwy effeithiol er mwyn dangos dealltwriaeth gliriach o'r heriau sy'n gysylltiedig â chael mynediad.

**Tasg Ch (i)**
Rhoddodd ymgeiswyr esboniadau boddhaol ar y cyfan o bwysigrwydd hybu empathi, dibynadwyedd ac amynedd wrth gefnogi unigolion i gyflawni canlyniadau llesiant. Roedd rhai ymatebion yn dangos cymhwysiad priodol i'r astudiaeth achos, er y byddai mwy o ddyfnder a chysondeb wrth gysylltu'r gwerthoedd hyn â chymorth ymarferol yn cryfhau eu perfformiad yn y maes hwn.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Tasg Ch (ii)**
Roedd perfformiad yr ymgeiswyr yn yr adran hon yn gymysg. Er bod rhai wedi dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o rôl ymddygiad ac ymarfer proffesiynol, yn enwedig y rhai a enillodd farciau yn y bandiau uwch, nid oedd llawer o'r ymatebion wedi'u datblygu'n ddigonol. Yn yr ymatebion gwannaf a gyflwynwyd, nid oedd llawer o gymhwysiad i'r astudiaeth achos ac ychydig o ddealltwriaeth a ddangoswyd o ddisgwyliadau proffesiynol. Anogir canolfannau i gefnogi dysgwyr i gryfhau eu dealltwriaeth o'r egwyddorion allweddol hyn a pha mor berthnasol ydynt i ymarferion yn y byd go iawn.

**Tasg D**
Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a gwelwyd trafodaethau meddylgar ar draws y mwyafrif o gyflwyniadau. Roedd y rhai a enillodd farciau yn y bandiau uwch wedi cysylltu'r egwyddorion yn effeithiol â chanlyniadau penodol unigolyn yr astudiaeth achos, gan ddangos mewnwelediad clir i sut mae'r ddeddf yn cefnogi ac yn hybu llesiant ar waith.

**Aseiniad 2**

**Tasg A**
Ar y cyfan, darparodd ymgeiswyr grynodebau wedi'u strwythuro'n dda o amrywiaeth o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd rhai'n cynnwys rolau nad oeddent yn cael eu cydnabod yng nghyd-destun y cymhwyster. Dylai canolfannau gofio bod angen cyfeirio at y rhestr gymeradwy ar dudalennau 44–45 o'r fanyleb. Er bod crynodebau yn aml yn cael eu cyflwyno'n glir, nid oedd llawer ohonynt yn cynnwys digon o fanylion am y llwybrau gyrfa gofynnol ar gyfer y rolau a ddewiswyd, a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i gyrraedd bandiau marciau uwch.

**Tasg B (i)**
Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddealltwriaeth bendant o ofal person-ganolog, gan gynnig diffiniadau llawn ac esbonio rôl gydweithredol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithiol o ran cynllunio, cyflwyno a monitro cymorth. Ymdriniwyd â'r maes hwn yn dda ar draws y mwyafrif o gyflwyniadau.

**Tasg B (ii)**
Yn gyffredinol, rhoddwyd disgrifiadau da o'r cod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol. Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth, gan eu cymhwyso'n glir at yr unigolyn yn yr astudiaeth achos. Roedd y mwyafrif yn gallu nodi ac esbonio o leiaf tri o fanteision cadw at safonau proffesiynol, gan adlewyrchu dealltwriaeth gadarn o'r disgwyliadau o fewn y sector.

**Tasg B (iii)**
Rhoddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr sylw boddhaol i esbonio sut mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn hybu ymarfer person-ganolog a dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Roedd yr ymatebion yn dangos rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, ond byddai mwy o ddyfnder a chysylltiadau cliriach â gweithredu ymarferol yn cryfhau eu perfformiad yn y maes hwn.

**Tasg C**
Rhoddodd ymgeiswyr esboniadau boddhaol ar y cyfan o sut mae dwy egwyddor yn cael eu hybu a'u cefnogi mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth ddigonol o ddiogelu, er bod rhai wedi cymysgu hynny ag iechyd a diogelwch cyffredinol gan gyfeirio at enghreifftiau fel teclynnau codi. Roedd y ddealltwriaeth o gyd-gynhyrchu yn gyfyngedig, yn enwedig ymhlith y rhai a gyflawnodd leoliadau gwaith mewn ysgolion, lle roedd y cymhwyso'n aml yn aneglur neu heb ei ddatblygu'n ddigonol.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Tasg Ch**
Roedd yn galonogol gweld bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi cwblhau lleoliadau gwaith mewn lleoliadau perthnasol a phriodol, fel cartrefi gofal preswyl. Cafodd myfyrdodau eu cyflwyno'n dda ar y cyfan, gyda'r mwyafrif yn nodi cryfderau personol, gwendidau, a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, ychydig o adfyfyrio dyfnach a gafwyd yn aml ar sut roedd lleoliadau gwaith ac ymgysylltiad â'r sector wedi mireinio gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeiswyr o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Cyflwynwyd logiau a myfyrdodau fel dogfennau ar wahân yn aml. Er bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi adfyfyrio ar eu profiadau, fe'u hanogir i wneud defnydd llawnach o'r myfyrdodau hyn yn eu hymatebion ysgrifenedig i gryfhau ansawdd eu gwaith.

Yn unol â'r gofynion a nodir ar fanyleb CBAC, atgoffir canolfannau bod yn rhaid cyflwyno holl logiau ymgysylltu â'r sector i gadarnhau bod ymgeiswyr wedi cwblhau'r 60 awr ofynnol o ymgysylltu â'r sector.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Eich cefnogi chi**

**Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol**

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02920 265139
E-bost: igceach@cbac.co.uk
Tudalen y cymhwyster ar y we: Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyddestunau

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

**Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol**

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

**Cymwysterau CBAC**

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.2025

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.2025